

Drwy e-bost at bob ysgol a choleg yng Nghymru



3 Gorffennaf 2020

Annwyl gyfaill

## Haf 2020

Diolch am y gwaith yr ydych chi a'ch cydweithwyr wedi'i wneud i gyflwyno graddau asesu canolfannau a data trefn restrol i CBAC. Cyhoeddwyd y canfyddiadau a'r penderfyniadau mewn perthynas â'n hymgyngoriad ar y nodau arfaethedig sy'n sail i'r model ystadegol a'r broses apelio a [gyhoeddwyd](#) ar 29 Mehefin.

Mae CBAC yn cynnig modelau safoni ar gyfer cyfrifo graddau TGAU, UG a Safon Uwch, a graddau Tystysgrifau Her Sgiliau ac rydym yn ceisio cymeradwyo'r rhain yn fuan. Byddwn yn rhannu rhai esboniadau lefel uchel o'r rheini yn ddiweddarach y mis hwn.

Cyn hir, bydd CBAC yn prosesu'r data er mwyn dyfarnu cymwysterau, fel y gellir cyhoeddi canlyniadau yn ôl y bwriad. Byddwn yn goruchwyllo'r broses honno, er mwyn sicrhau y dilynir ein dulliau gweithredu cytûn. Rydym yn gwybod bod rhai cwestiynau heb eu hateb o hyd ac rydym yn gweithio i ddarparu mwy o wybodaeth lle bo modd; gwerthfawrogwn eich dealltwriaeth.

## Rhyddhau canlyniadau

Er bod y gyfres arholiadau wedi bod yn wahanol iawn eleni, mae dyddiau canlyniadau yn aros fel yr oedden nhw. Hoffem atgoffa ysgolion a cholegau bod y canlyniadau yn gyfrinachol tan y diwrnodau canlyniadau swyddogol (13 Awst ar gyfer TAG a 20 Awst ar gyfer TGAU), ac ni ddylid eu rhannu gydag unrhyw unigolyn neu sefydliad y tu allan i'ch ysgol neu goleg.

## Tachwedd 2020

Bydd cyfres Tachwedd 2020 yn gweithredu fel arfer, yn amodol ar beidio â chael unrhyw darfu pellach o ganlyniad i Covid-19. Bydd cymwysterau TGAU mewn

### Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 0333 077 2701



[www.qualificationswales.org](http://www.qualificationswales.org)

### Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 0333 077 2701

Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a'r Gymraeg ar gael, fel arfer. O ystyried amseriad y gyfres gynlluniedig hon, credwn y bydd y gyfres hon yn fwyaf perthnasol i ddysgwyr sy'n dymuno ailsefyll unrhyw rai o'r cymwysterau hyn. Ni fydd yr asesiadau yn y gyfres hon yn cael eu diwygio, felly bydd angen i ganolfannau ystyried yn ofalus a yw'n briodol i gofrestru dysgwyr Blwyddyn 11 lle bu tarfu sylweddol ar addysgu a dysgu.

## Haf 2021

Rydym wedi darparu diweddariadau byr ar ein gwaith ar gyfer haf 2021 drwy ein gwefan, a chyhoeddwyd ail [flog](#) yn ddiweddar. Rydym yn gwerthfawrogi bod galw am ragor o fanylion cyn diwedd tymor yr haf. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda CBAC i ystyried pa addasiadau, os o gwbl, a allai fod yn briodol ar gyfer cymwysterau a gymerwyd yn haf 2021. Fel yr [amlinellwyd](#) yn flaenorol, mae hon yn broses gymhleth ac ni ellir ei brysio. Yn hollbwysig, mae angen inni sicrhau nad yw unrhyw newidiadau'n tanseilio dilysrwydd a hygreddedd cymwysterau yng Nghymru, ac ni fyddai hynny er budd i'n dysgwyr. Yn yr un modd, rydym yn sylweddoli'n llawn y pryder sy'n bodoli ynghylch y tarfu ar ddysgu a gafwyd hyd yn hyn, ac a allai barhau i'r flwyddyn academaidd nesaf.

Mae CBAC eisoes wedi cyfathrebu â chanolfannau ar addasiadau i Dystysgrifau Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ac rydym yn gobeithio y bydd rhannu'r wybodaeth hon yn gynnar yn ddefnyddiol i ganolfannau. Fel rhan o'u hystyriaethau o ddewisiadau pwnc TGAU unigol, cyn hir bydd CBAC yn gwneud rhywfaint o waith ymgysylltu i gasglu barn ar rai o'r addasiadau arfaethedig. Rydym yn annog staff mewn canolfannau i ymateb i'r ymgysylltiad hwn. Mae gwaith i ystyried UG a Safon Uwch yn mynd rhagddo a bydd yn dilyn y gwaith TGAU.

Byddwn yn rhoi diweddariad pellach ar y ffordd ymlaen a gynlluniwyd ar gyfer TGAU yn haf 2021 yn fuan.

## Rhoi gwybod i chi

Rydym yn parhau i ychwanegu gwybodaeth yn ymwneud â haf 2020 i'r adran Covid-19 ar ein gwefan. Rydym yn rhannu diweddariadau ar ffurf eitemau newyddion, cwestiynau cyffredin ac erthyglau i'r adran Covid-19, yn ogystal â thrwy sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n Cylchlythyr '*Y Llechen*'. Gallwch gofrestru ar ein [gwefan](#) i dderbyn hwn.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am wybodaeth y byddai'n ddefnyddiol i chi ei chael yn y dyfodol, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Yn gywir



**Philip Blaker**

**Prif Weithredwr**